

Cyfyngiadau ar Weithgarwch Gwleidyddol - Arweiniad

Cyfyngiadau ar Weithgarwch Gwleidyddol - Arweiniad

CYNNWYS	RHIF Y DUDALEN
Datganiad Polisi	3
Pwrrpas	3
Cwmpas	3
Beth yw ystyr cyfyngiadau gwleidyddol?	4
Pa swyddi sydd dan gyfyngiadau gwleidyddol?	4
Sut mae apelio?	4
Sut yr wyf yn gwybod a yw swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol?	5
A allaf ymddiswyddo er mwyn cyflawni gweithgareddau gwleidyddol ac yna cael fy ailgyflogi?	5
Rhagor o gymorth a gwybodaeth	5
Sicrhau cyfle cyfartal	6

DATGANIAD POLISI

Mae egwyddor 'cyfngiadau gwleidyddol' mewn Llywodraeth Leol yn seiliedig ar arferion sydd wedi'u sefydlu ers tro, sy'n nodi y dylai swyddogion sy'n rhoi cyngor i aelodau Awdurdod weithredu'n unol â pholisi o fod yn ddiduedd yn wleidyddol.

Mae'r egwyddor hon yn hanfodol i system deg a democrataidd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Dylai Aelodau Etholedig gael cyngor diduedd gan swyddogion
- Ni ddylai unrhyw blaid wleidyddol gael dylanwad ar swyddogion wrth weithredu'r polisi

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i weithio'n unol â'r ddeddfwriaeth ynghylch swyddi dan Gyfngiadau Gwleidyddol. Er bod rhai swyddi yn y Cyngor dan 'gyfngiadau gwleidyddol', sy'n golygu na all staff a gyflogir yn y swyddi hyn gyflawni gweithgareddau gwleidyddol, mae'n rhaid i weithwyr, mewn swyddi dan gyfngiadau gwleidyddol ai peidio, ddilyn pob polisi o eiddo'r Awdurdod a fynegwyd yn gyfreithlon ac ni ddylent ganiatáu i'w barn bersonol neu wleidyddol amharu ar eu gwaith. Pan fydd gweithwyr dan gyfngiadau gwleidyddol (oherwydd eu swydd neu natur y gwaith a wnânt), mae'n rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw gyfngiadau statudol ar eu gweithgareddau gwleidyddol.

Mae'r arweiniad yn diffinio sut y mae'r Cyngor yn pennu'r gofynion ar gyfer swyddi dan Gyfngiadau Gwleidyddol ac yn adlewyrchu darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

PWRPAS

Dyma nodau'r arweiniad hwn:

- Darparu cymorth i weithwyr sy'n dal swyddi perthnasol o ran goblygiadau'r cyfngiadau gwleidyddol a'r cyfngiadau sy'n berthnasol o dan y ddeddfwriaeth bresennol.
- Sicrhau nad yw gweithwyr mewn swyddi dan gyfngiadau gwleidyddol yn caniatáu i'w barn bersonol neu wleidyddol ddylanwadu neu amharu'n amhriodol ar eu gwaith;
- Cynnal enw da a gonestrwydd y Cyngor.

CWMPAS

Mae'r arweiniad yn berthnasol i'r holl weithwyr (gan gynnwys gweithwyr rhan-amser, gweithwyr achlysurol a gwirfoddolwyr sy'n cyflawni gweithgareddau a gymeradwyir

gan y Cyngor) ac eithrio'r rheiny a gyflogir o dan delerau ac amodau Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

BETH YW YSTYR CYFYNGIADAU GWLEIDYDDOL?

Mae rhai swyddi yn y Cyngor dan 'gyfyngiadau gwleidyddol', sy'n golygu na all staff a gyflogir yn y swyddi hyn gyflawni gweithgareddau gwleidyddol yn y gweithle na'r tu allan iddo. Bydd gweithwyr dan gyfyngiadau gwleidyddol yn cael eu gwahardd yn awtomatig rhag ceisio am swydd mewn plaid wleidyddol neu ei dal, ac mae'r cyfyngiadau hyn yn rhan o delerau contract cyflogaeth y gweithiwr o dan y ddeddfwriaeth.

Mae deiliaid swyddi dan "gyfyngiadau gwleidyddol" felly yn cael eu gwahardd rhag mynd yn aelod etholedig o unrhyw Gyngor Sir/Bwrdeistref Sirol a rhag parhau i fod yn aelod ohono. Nid yw'r gwaharddiad hwn yn berthnasol i gynghorau tref na chynghorau cymuned. Hefyd gwaherddir y gweithiwr rhag mynd yn Aelod Seneddol, yn Aelod o Senedd Ewrop neu'n Aelod o Gynulliad Cymru; rhag bod â swydd mewn plaid wleidyddol; rhag canfasio mewn etholiadau a rhag siarad neu ysgrifennu'n gyhoeddus ynghylch materion sy'n destun dadl plaid wleidyddol.

Mae effaith gronol y cyfyngiadau hyn yn golygu bod deiliaid swyddi dan gyfyngiadau gwleidyddol yn gallu mynd yn aelod sylfaenol o bleidiau gwleidyddol yn unig, ac ni chaniateir cyfranogiad gweithredol yn y blaid.

Boed swydd benodol dan gyfyngiadau gwleidyddol yn ôl y diffiniadau uchod ai peidio, dylai'r holl weithwyr ddilyn Côt Ymddygiad y Swyddogion a rhaid iddynt beidio â chaniatáu i'w barn bersonol neu wleidyddol amharu ar eu gwaith.

PA SWYDDI SYDD DAN GYFYNGIADAU GWLEIDYDDOL?

Dim ond y swyddi sy'n cael eu cynnwys yn y ddau gategori a adwaenir fel **swyddi a nodir** a **swyddi sensitif** fydd yn cael eu hystyried yn rhai dan gyfyngiadau gwleidyddol. Ystyrir bod gweithwyr yn dal swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol yn yr Awdurdod os yw'r canlynol yn berthnasol:

- (a) swydd lle rhoddir cyngor yn rheolaidd i'r Awdurdod ei hun, i unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o'r Awdurdod neu i unrhyw gyd-bwyllgor y mae gan yr Awdurdod gynrychiolaeth arno, neu;
- (b) swydd lle siaredir â newyddiadurwyr/darlledwyr yn rheolaidd ar ran yr Awdurdod;
- (c) swydd a ddynodwyd yn awtomatig yn un sydd dan gyfyngiadau gwleidyddol. Er enghraifft, Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Prif Swyddogion statudol ac anstatudol, dirprwy Brif Swyddogion, y Swyddog Monitro, a'r Cynorthwyr Gwleidyddol.

SUT MAE APELIO?

Os bydd swydd gweithiwr yn cael ei nodi'n un **sensitif** o dan y ddeddfwriaeth, ac felly'n gwleidyddol gyfyngedig, mae ganddo hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad os yw'n teimlo na all gael dylanwad ar bolisiau, neu nad yw'r Awdurdod Lleol wedi defnyddio'r meini prawf sy'n gysylltiedig â'i ddyletswyddau yn y modd cywir.

Os yw'r gweithiwr yn dymuno apelio, dylai roi gwybod i'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad) drwy Brif Swyddog yr adran gyflogi berthnasol ymlaen llaw er mwyn gallu cyhoeddi'r Dystysgrif Barn berthnasol.

Dylid cyflwyno apeliadau'n ysgrifenedig i sylw'r Dyfarnwr Annibynnol, drwy geisio'n ffurfiol am eithriad. Dylai'r apêl gynnwys Tystysgrif Barn wedi'i llofnodi gan Swyddog Monitro y Cyngor, sy'n cadarnhau a yw'r swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol ai peidio ac yn rhoi disgrifiad llawn o'r swydd. Dylid anfon yr holl ddogfennaeth ymlaen at y Dyfarnwr Annibynnol yn:

Dyfarnwr Annibynnol Awdurdodau Lleol Cymru
c/o Llywodraeth Cynulliad Cymru
Is-adran Polisi Llywodraeth Leol
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

SUT YR WYF YN GWYBOD A YW SWYDD DAN GYFYNGIADAU GWLEIDYDDOL?

Mae'r Cyngor yn cadw rhestr o'r swyddi sydd wedi'u diffinio'n rhai dan gyfyngiadau gwleidyddol yn unol â'r ddeddfwriaeth. Mae'r rhestr yn cynnwys swyddi a nodir yn ogystal â swyddi sensitif ac mae'n cael ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd proffiliau swyddi hefyd yn cadarnhau a yw swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol a bydd gweithwyr yn cael gwybod yn bersonol am unrhyw newidiadau sy'n effeithio arnynt yn eu swyddi.

A ALLAF YMDDISWYDDO ER MWYN CYFLAWNI GWEITHGAREDDAU GWLEIDYDDOL AC YNA CAEL FY AILGYFLOGI?

Gallwch ymddiswyddo o'ch swydd er mwyn cyflawni gweithgarwch gwleidyddol allanol, ond ni allwch gael eich ailgyflogi mewn swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol gyda Chyngor Sir Caerfyrddin o fewn 12 mis ar ôl diwedd eich gweithgarwch gwleidyddol. Nid oes rhaid i'r Cyngor gadw eich swydd na'ch trin yn fwy ffafriol wrth i chi wneud cais am swydd newydd.

RHAGOR O GYMORTH A GWYBODAETH

Dylai rheolwyr drafod cyfyngiadau gwleidyddol swydd ag ymgeiswyr ar y cam recriwtio, a sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r goblygiadau sydd ynghlwm wrth dderbyn y swydd. [Polisi Recriwtio](#)

Os bydd gweithiwr yn cyflawni gweithgareddau gwleidyddol yn y gweithle neu'r tu allan iddo tra bydd yn dal swydd yr ystyrir ei bod dan gyfyngiadau gwleidyddol, bydd

yn destun camau disgyblu a allai arwain at ddiswyddo. Gweler [Côd Ymddygiad y Gweithwyr](#) a'r [Polisi Disgyblu](#)

SICRHAU CYFLE CYFARTAL

Mae angen i'r holl weithwyr fabwysiadu dull cadarnhaol, agored a theg a sicrhau y cydymffurfir â Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Awdurdod a'i gymhwyso'n gyson i bawb heb ystyried hil, lliw, cenedl, tarddiad ethnig neu genedlaethol, anabledd, crefydd a chred neu ddiffyg cred, oedran rhyw, ailbennu rhywedd, hunaniaeth rhywedd a mynegiant rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, statws priodas neu bartneriaeth sifil.

Yn ogystal, mae Safonau'r Gymraeg yn gofyn i ni 'sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg' a dylid defnyddio'r egwyddor hon wrth gymhwyso'r polisi a'r weithdrefn.

Os oes gennych bryderon ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn perthynas â gweithredu'r polisi a'r weithdrefn, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Adnoddau Dynol a fydd yn sicrhau, os bydd angen, fod y polisi neu'r weithdrefn yn cael eu hadolygu yn unol â hynny.

Os oes angen copi o'r cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat arall, cysylltwch â Rheoli Pobl drwy ffonio est 6184 neu drwy anfon e-bost at UnedCymorthBusnesRP@sirgar.gov.uk